**Comisiynydd Plant Cymru**

**Cyfrifon Adnoddau am y cyfnod**

**1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005**

## RHAGAIR I'R CYFRIFON

### Swyddogaeth a gweithrediad

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Pennir pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn y Ddeddf honno ac yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru a ddaeth i rym yn Awst 2001. Ymgymerodd y Comisiynydd cyntaf, Mr Peter Clarke â'i ddyletswyddau ar 1$^{af}$ Mawrth 2001.

Mae'r ddeddfwriaeth yn 'oddefol' i'r graddau nad yw'n gosod llawer o ddyletswyddau penodol ar y Comisiynydd, ond mae'n galluogi gweithredu ac ymyrryd dros ystod eang trwy gyfrwng y pŵer cyffredinol i weithredu fel 'amddiffynnydd plant a phobl ifanc yng Nghymru'. Golyga hyn fod dyletswyddau'r Comisiynydd yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn unol â'r hyn a ganfyddir fel y materion pwysicaf ar gyfer lles plant a phobl ifanc. Wrth gyflawni ei waith, mae dyletswydd ar y Comisiynydd i gynnwys y plant a'r bobl ifanc ac i ganfod eu barn.

Pwerau'r Comisiynydd yn y lle cyntaf yw sicrhau mynediad at wybodaeth gan unigolion neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant. Cyfyngir y pwerau hyn i'r meysydd a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae hyn yn cynnwys y modd y cyflawnir swyddogaethau:-

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraeth leol (e.e. addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol, hamdden etc, gan gynnwys arolygu)
Gwasanaethau Iechyd
Nifer o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Gall y Comisiynydd gyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar blant yng Nghymru.

Yn ôl y gyfraith, mae'r Comisiynydd Plant yn 'gorfforaeth undyn', a'r comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifo. Mae'n ofynnol iddo baratoi Adroddiad Blynyddol i Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n crynhoi'r hyn a wnaed wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, adolygiad o'r materion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru a chrynodeb o'i raglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Comisiynydd hefyd yn paratoi fersiwn o'r adroddiad blynyddol sydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn addas ar gyfer plant. Rhoddir copïau o'i adroddiad yn llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyllido**

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond cyllidir y Comisiynydd gan y Cynulliad.

**Fformat y cyfrifon**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â pharagraff 7(2) Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan y Comisiynydd Plant, Llys Siarter, Phoenix Way, Abertawe SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1af Ebrill 2004 i 31ain Mawrth 2005 ac y maent yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau'r Comisiynydd Plant.

**Canlyniadau am y flwyddyn**

Mae'r Datganiad Cost Gweithredu yn dangos cost gweithredu net o £1,497,000 am y flwyddyn (2003-04: £1,155,000) sy'n cynrychioli cynnydd o 29.6% yn y gwariant net o gymharu â 2003-04. Yr oedd balans credyd o £202,000 yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn (2003-04: £180,000).

**Adolygiad o'r Gweithgareddau ac o Ddatblygiadau'r Dyfodol**

Cynhwysir adolygiad o'r gweithgareddau ac o ddatblygiadau'r dyfodol yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a roddir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn Hydref 2004. Hwn fydd pedwerydd adroddiad blynyddol y Comisiynydd.

**Uwch swyddogion**

Bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu fel aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Peter Clarke | Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo |
| Maria Battle | Is-gomisiynydd, Cyfreithiol ac Ymchwiliadau |
| Rhian Davies | Is-gomisiynydd, Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau |
| Sara Reid | Is-gomisiynydd, Cyfathrebu a'r Cyfryngau |
| Sharon Davies | Is-gomisiynydd Gweithredol, Gwasanaethau Corfforaethol (Ymadawodd 6.2.05) |
| Charlotte Blair | Rheolwr Cyllid a Gweinyddiaeth |

**Penodiadau uwch swyddogion**

Penodwyd y Comisiynydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dechreuodd yn ei swydd ar 1af Mawrth 2001. Gwnaed y penodiad am gyfnod o 7 mlynedd fan hwyaf.

Dechreuodd gweddill yr uwch swyddogion yn eu swyddi rhwng Ionawr a Mawrth 2002, a phenodwyd hwy gan y Comisiynydd yn unol ag Atodlen 2 paragraff 4 Deddf Safonau Gofal 2000.

### Tâl aelodau'r Bwrdd Rheoli

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n pennu tâl Comisiynydd Plant Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 Deddf Safonau Gofal 2000.

Pennwyd tâl aelodau eraill o'r Tîm Rheoli gan Gomisiynydd Plant Cymru ar sail arweiniad gan arbenigwyr ar recriwtio i'r gwasanaeth sifil. Rhoddir manylion pellach ynglŷn â thâl yn nodyn 2 ar y cyfrifon hyn.

### Cynllun pensiwn

Mae gan y cyflogeion presennol yr opsiwn o ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

### Cyfleoedd cyfartal

Ystyriwyd pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu galluoedd, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylid trin unrhyw gyflogai nac ymgeisydd yn llai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teulu/cartref na phatrymau gwaith e.e. rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir bod modd eu cyfiawnhau.

### Polisi Talu

Yn unol Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru dalu anfonebion cyflenwyr pan nad anghytunir yn eu cylch o fewn 30 diwrnod ar ôl cael y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r ddiweddaraf. Cyflawnwyd y gofyniad yn achos 81% o daliadau o'r fath yn ystod y cyfnod. Ni thalwyd unrhyw log mewn perthynas â thaliadau hwyr.

### Archwilwyr

Archwilir ac ardystir cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000.

### Digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol

Ni ddigwyddodd unrhyw beth ar ôl dyddiad y fantolen sydd wedi effeithio ar y ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

**Peter Clarke**
**Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo**
**12fed Medi 2005**

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO

Yn ôl Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal, mae'n ofynnol i Gomisiynydd Plant Cymru gadw cofnodion ariannol priodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan roi manylion am yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod, ac am y defnydd o adnoddau gan Gomisiynydd Cymru yn ystod y cyfnod.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau, a rhaid iddynt roi golwg wir a theg ar amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddosrannwyd ar gyfer yr amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y cyfnod.

Mae Atodlen 2, paragraff 10 Deddf Safonau Gofal 2000 yn datgan mai'r Comisiynydd fydd y Swyddog Cyfrifo ac y bydd, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 9, yn cyflwyno Cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys ac, yn benodol:

- cydymffurfio â'r gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL.

### Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol sy'n cefnogi fy mholisïau, nodau ac amcanion, tra'n diogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus yr wyf i yn bersonol yn atebol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi o fewn trefn gyfrifo'r Llywodraeth.

### Pwrpas y system reolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system reolaeth fewnol i reoli risg ar lefel resymol, yn hytrach nag i ddiddymu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ac felly, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol o'i heffeithiolrwydd, ac nid sicrwydd absoliwt.

Seilir y system reolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd er mwyn canfod a blaenoriaethu'r risgiau i'r polisïau, nodau ac amcanion, gwerthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau hynny a'u heffaith os gwireddir hwy, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Yr oedd y gweithdrefnau wedi eu sefydlu trwy gydol y flwyddyn i 31ain Mawrth 2005 ac yn parhau hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac yr oedd y systemau rheolaethau mewnol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

### Y gallu i ymdopi â risg

Yr wyf wedi sefydlu Polisi a Fframwaith Rheoli Risgiau ac wedi penodi Rheolwr Strategaeth Risgiau. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisi a'r fframwaith sy'n pennu manylion y dull a ddefnyddir a'r agwedd tuag at reoli risgiau, y strwythur ar gyfer eu rheoli, a pherchnogaeth y risgiau.

### Y fframwaith risgiau a rheolaethau

Gwnaed rheolaeth risgiau yn rhan o'r broses gynllunio gorfforaethol. Cymerir y risgiau strategol allweddol o'r cynllun corfforaethol, ac ystyrir hwy gan yr uwch dîm rheoli. Mae pob risg yn eiddo i aelod penodol o'r uwch dîm rheoli, ac y mae'r gofrestr risgiau ar gael i bob aelod o'r staff. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd y gofrestr risgiau yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae pob risg newydd neu newid yn cael eu nodi a'u gwerthuso. Penderfynir ar y chwant risgiau gan y Comisiynydd ar ôl ymgynghori â'r Uwch Dîm Rheoli, yng ngoleuni'r effaith ar enw da'r Comisiynydd, perfformiad gweinyddol, gweithredol ac unigol y Comisiynydd, annibyniaeth y Comisiynydd a'i adolygiad annibynnol a gwrthrychol o weithgareddau, beirniadaeth o unrhyw fath gan gyrff rheoleiddio, colled ariannol, gwerth annigonol am arian, defnydd amhriodol o gyllid cyhoeddus, neu unrhyw doriad rheoleidd-dra neu briodoldeb. Gwneir asesiad risgiau ar gyfer pob gweithgarwch gweithredol neu weithgarwch prosiect cyn ei ddechrau.

### Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Goleuir fy adolygiad o'r system rheolaethau mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaethau mewnol, a'r sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli. Cefais gyngor hefyd gan y Pwyllgor Archwilio ynglŷn ag effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd gennyf. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y system o reolaethau mewnol, a rhoi sylw i unrhyw i unrhyw wendidau wrth iddynt ymddangos.

Y broses a ddefnyddiwyd i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol oedd:

- bu'r Uwch Dîm Rheoli yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y rheolaethau ariannol mewnol;
- bu'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn, gan roi cyngor ar oblygiadau'r sicrwydd a ddarperir mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a'r rheolaethau perthnasol, digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwilwyr.

Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n darparu'r Archwiliad Mewnol ar gyfer fy swyddfa. Maent yn gweithredu yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Cyflwynant adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol gan Bennaeth yr Archwiliad Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y Comisiynydd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Peter Clarke**
**Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo**
**12fed Medi 2005**

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 9 i 24 yn unol â pharagraff 9(2) atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd trwy ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 15 ac 16.

### Priod gyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru a'r Archwilydd

Fel a ddisgrifir ar dudalen 4, Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddiadau a roddir yn unol â'r Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Comisiynydd hefyd sy'n gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, trwy statud, a gweithredaf o dan arweiniad y Bwrdd Arferion Archwilio a chanllawiau moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ac wedi eu paratoi yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm, ym mhob modd sylweddol, i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Byddaf hefyd yn adrodd hynny os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Comisiynydd wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof i wybod am unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol.

Byddaf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 5 i 6 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Comisiynydd â chanllawiau'r Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol: Datganiad ar Reolaeth Fewnol'. Byddaf yn adrodd hynny os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall a ddaeth i'm sylw yn ystod fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Nid oes gofyn imi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid oes gofyn imi ychwaith ffurfio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr endid na'i weithdrefnau ar gyfer risgiau a rheolaethau.

### Sail y farn archwilio

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Cyfrifo. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail profion, tystiolaeth mewn perthynas â'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Comisiynydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a yw'r polisïau cyfrifo yn addas i amgylchiadau'r Comisiynydd, ac a ydynt wedi eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a ystyriwn yn angenrheidiol i ddarparu tystiolaeth ddigonol ac i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn

rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny trwy gamgymeriad, neu dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob modd sylweddol, wedi eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y dull o gyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Fy marn**

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru ar 31ain Mawrth 2005 ar yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny, ac y maent wedi eu paratoi yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddiadau a roddwyd yn unol â'r Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob modd sylweddol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**28 Medi 2005**

***Swyddfa Archwilio Cymru***
***2-4 Park Grove***
***Caerdydd***
***CF10 3PA***

**Atodlen 1**

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

| | 2004-2005 | | | | | | | 2003-2004 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | |
| | Gwariant gros | Incwm | Cyfanswm net | Gwariant gros | Incwm | Cyfan swm net | Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcangyfrif | Alldro'r flwyddyn flaenorol |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau gweinyddu | **1,400** | **-** | **1,400** | **1,497** | **-** | **1,497** | **(97)** | **1,155** |

### Cysoni'r adnoddau a'r gofyniad arian

| | 2004-05 | 2003-04 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm alldro adnoddau net (*Atodlen 2*) | 1,497 | 1,155 |
| Caffaeliadau asedau sefydlog *(Nodyn 5)* | 10 | 39 |
| Gwarediadau asedau sefydlog *( Nodyn 5)* | (1) | - |
| Addasiadau i'r croniadau: | | |
| Eitemau anariannol (*Nodyn 3*) | (83) | (105) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol ac eithrio arian(*Nodyn 6*) | 42 | (116) |
| Gofyniad arian net (*Atodlen 4*) | 1,465 | 973 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 to 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

**Atodlen 2**

**Datganiad Cost Gweithredu**
am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

| | *Nodyn* | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddu** | | | |
| Costau staff | 2 | 756 | 657 |
| Costau gweinyddu eraill | 3 | 741 | 499 |
| Costau gweinyddu gros | | 1,497 | 1,156 |
| Incwm gweithredu | 4 | - | (1) |
| **Costau gweithredu net** | | **1,497** | **1,155** |
| **Alldro adnoddau net (Atodlen 1)** | | **1,497** | **1,155** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddir amdanynt yn y Datganiad Cost Gweithredu.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 i 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

**Atodlen 3**

**Y Fantolen**
ar 31 Mawrth 2005

| | | 2005 | | 2004 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau sefydlog** | *Nodyn* | | | | |
| Asedau diriaethol | 5 | | 96 | | 163 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Blaendaliadau | 7 | 43 | | 21 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 8 | 535 | | 192 | |
| | | 578 | | 213 | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 9 | (472) | | (196) | |
| **Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net** | | | 106 | | 17 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 202 | | 180 |
| *Ariannwyd gan:* | | | | | |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 10 | | **202** | | **180** |

**Peter Clarke**
**Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo**
**12fed Medi 2005**

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 to 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

**Atodlen 4**

**Datganiad Llif Arian**

am y cyfnod 1af Ebrill 2004 i 31ain Mawrth 2005

| | Nodyn | 2004-05<br>£000 | 2003-04<br>£000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | | (1,456) | (934) |
| Gwariant cyfalaf | 5 | (9) | (39) |
| Ariannu gan y Cynulliad | | 1,808 | 1,142 |
| Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod | | **343** | **169** |

**Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian**

| | | £000 | £000 |
|---|---|---|---|
| **Cysoni'r gost gweithredu â'r llifau arian gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | 1,497 | 1,155 |
| Addasu ar gyfer: | | | |
| Trafodion anariannol | 3 | (83) | (105) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithredol heblaw arian | 6 | 42 | (116) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredol** | | 1,456 | 934 |
| | | | |
| **Dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 5 | 10 | 39 |
| Derbyniadau am waredu asedau sefydlog diriaethol | 5 | (1) | - |
| **All-lif arian net o wariant cyfalaf** | | 9 | 39 |
| | | | |
| **Dadansoddiad o'r ariannu** | | | |
| Ariannu gan y Cynulliad | | 1,808 | 1,142 |
| (Cynnydd) mewn arian | 8 | (343) | (169) |
| **Gofyniad arian net** | | **1,465** | **973** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 to 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

**Atodlen 5**

**Adnoddau yn l Nod ac Amcanion y Sefydliad**
am y cyfnod 1af Ebrill 2004 i 31ain Mawrth 2005

## NOD AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU

**Nod**

Amddiffyn a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac wrth arfer pob un o'i swyddogaethau, rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

| | 2004-2005 | | | 2003-2004 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gros** | **Incwm** | **Net** | **Gros** | **Incwm** | **Net** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Amcan:** | | | | | | |
| Amcan 1: | 430 | - | 430 | 445 | 1 | 444 |
| Amcan 2: | 272 | - | 272 | 76 | - | 76 |
| Amcan 3: | 83 | - | 83 | 104 | - | 104 |
| Amcan 4: | 30 | - | 30 | 36 | - | 36 |
| Amcan 5: | 45 | - | 45 | 125 | - | 125 |
| Amcan 6: | 602 | - | 602 | 287 | - | 287 |
| Amcan 7: | 13 | - | 13 | 4 | - | 4 |
| Amcan 8: | 22 | - | 22 | 79 | - | 79 |
| | **1,497** | **-** | **1,497** | 1,156 | 1 | 1,155 |

Amcanion y Comisiynydd oedd y canlynol:

1. Hybu hawliau a lles Plant, a sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn gwybod am fodolaeth y Comisiynydd, ei swyddogaeth a'i bwerau; lleoliad ei swyddfeydd a sut i gyfathrebu / cysylltu â'r Comisiynydd a'i staff a beth yw hawliau Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig y rheini a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn; annog y fath gyfathrebu / cysylltu; a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o hawliau Plant a Phobl Ifanc.

2. Sicrhau y gofynnir barn Plant a Phobl Ifanc ynghylch y modd y dylai'r Comisiynydd gyflawni ei swyddogaeth, ac ynghylch cynnwys ei raglen waith flynyddol.

3. Adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion, eiriolaeth a chynghori a chwythu'r chwiban, er mwyn canfod a ydynt yn effeithiol, ac i ba raddau, o ran amddiffyn a hybu hawliau a lles plant.

4. Adolygu a monitro'r effaith ar blant o ganlyniad i arfer, neu gynnig i arfer, unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a /neu gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

5. Archwilio achosion plant penodol sydd neu a fu'n derbyn gwasanaethau rheoledig gan gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

6. Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn sy'n gwneud cwyn neu'n cyflwyno sylwadau i ddarparwr gwasanaeth; a / neu unrhyw weithrediadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau os yw'r gweithrediadau, ym marn resymol y Comisiynydd, yn ymwneud â materion mwy cymwysadwy a chyffredinol, neu'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw unigolyn.

7. Cadw pwerau'r comisiynydd a'r effaith ar Blant o dan arolwg.

8. Ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Yr oedd naw o amcanion yn y cyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol i 31$^{ain}$ Mawrth 2004. Amcan 1 oedd "Hybu hawliau a lles Plant". Cyfunwyd yr amcan hwn gydag Amcan 2 o'r un flwyddyn ariannol, i greu Amcan 1 newydd am y flwyddyn yn diweddu 31$^{ain}$ Mawrth 2005, fel a nodir uchod.

Mae'r amcanion yn destun adolygu rheolaidd, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu swyddogaeth a gweithgarwch y Comisiynydd. Dosrannwyd y costau gweithredu i'r amcanion trwy gyfeirio at feintiau cymharol yr amser a dreuliodd y staff ar yr amcanion uchod.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 to 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Nodiadau ar y cyfrifon adnoddau adrannol

### 1. Datganiad polisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r *Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Disgrifir isod y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth drin eitemau a ystyrir yn sylweddol mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 *Confensiwn cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol oherwydd, ym marn Comisiynydd Plant Cymru, ni thybir bod effaith ailbrisio asedau yn unol â'u gwerth i'r sefydliad gan gyfeirio at eu cost gyfredol yn fater sylweddol.

1.2 *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae'r Comisiynydd wedi prisio pob ased sefydlog ar eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn sylweddol. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Mae niferoedd mawr o'r un math o ased wedi eu grwpio gyda'u gilydd ar gyfer penderfynu a ydynt uwchlaw ynteu islaw'r trothwy.

1.3 *Dibrisiant*

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir er mwyn ysgrifennu ymaith gwerth yr asedau sefydlog diriaethol mewn rhandaliadau cyfartal dros yr amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- Offer TG — 3 blynedd
- Dodrefn — 5 mlynedd
- Offer Swyddfa — 5 mlynedd
- Gosodion a Ffitiadau — 5 mlynedd

Codir blwyddyn lawn o ddibrisiant yn ystod y flwyddyn caffael.

1.4 *Gwariant gweinyddol*

Mae'r costau gweinyddu yn adlewyrchu cost rhedeg swyddfa'r Comisiynydd Plant fel y'i diffinnir o fewn y gyfundrefn rheoli costau gweinyddu, gan gynnwys yr incwm cysylltiedig.

1.5 *Gwariant rhaglenni*

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw wariant rhaglenni.

1.6 *Tâl cyfalaf*

Mae tâl, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan y Comisiynydd, wedi ei gynnwys yn y costau gweithredu. Cyfrifir y tâl yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth, sef 3.5 % (3.5% y cant yn 2003-04) o werth real cyfartalog yr holl asedau llai rhwymedigaethau, ac eithrio'r balansau arian a ddelir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol Ei Mawrhydi, lle nad oedd balans mewn gwirionedd.

1.7 *Treth ar Werth*

Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir am y gwariant a'r pryniadau asedau sefydlog gan gynnwys TAW, gan na ellir adennill TAW.

1.8 *Pensiynau*

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd y Comisiynydd gynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau ac ymunodd â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr oedd y staff a ymunodd â'r PCSPS yn gymwys i gael ôl-ddyddio eu cyfraniadau cyflogai a chyflogwr hyd at gyfnod hwyaf o ddwy flynedd, a oedd yn dibynnu ar y dyddiad ymuno â Chomisiynydd Plant Cymru. Darparwyd yn llawn am y cyfraniadau ôl-ddyddiedig hyn yn y cyfrifon am 2003-04.

- Cynllun cyfraniadau diffiniedig yw cynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, a chydnabyddir pob rhwymedigaeth ar ei gyfer o fewn y cyfnod.

- Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost yr elfen buddion diffiniedig o'r cynllun ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fo'n elwa o wasanaethau'r cyflogeion trwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail groniadol. Cost yn erbyn y PCSPS yw'r rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol. Mewn perthynas ag elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn yn erbyn y Datganiad Cost Gweithredu yn y flwyddyn y'u telir.

1.9 *Prydlesau gweithredu*

Codir taliadau rhent am brydlesau gweithredu yn erbyn y Datganiad Cost Gweithredu mewn symiau cyfartal dros gyfnod y prydles.

## 2. Niferoedd staff a chostau perthynol

a) Ar gyfer y flwyddyn, yr oedd y costau staff yn cynnwys:

| | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Cyflogau | 613 | 476 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 61 | 51 |
| Costau pensiwn | 19 | 54 |
| **Is-gyfanswm** | 693 | 581 |
| Secondio i mewn a staff asiantaeth | 63 | 76 |
| | 756 | 657 |

b) Yr oedd nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth amser-llawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2004-05** | **2003-04** |
|---|---|---|
| Amcan 1: | 7 | 7 |
| Amcan 2: | 1 | 1 |
| Amcan 3: | 2 | 2 |
| Amcan 4: | 1 | 1 |
| Amcan 5: | 2 | 2 |
| Amcan 6: | 6 | 4 |
| Amcan 7: | - | - |
| Amcan 8: | 1 | 1 |
| Cyfanswm | **20** | **18** |

Dosrannwyd y niferoedd staff rhwng yr amcanion gan gyfeirio at yr amseroedd cymharol a dreuliodd y staff ar yr amcanion.

c) Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion tâl a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn y sefydliad:

Tâl

| | **2004-2005** | | **2003-2004** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Amrediad cyflogau £000** | **Buddion anariannol (i'r £100 agosaf)** | **Amrediad cyflogau £000** | **Buddion anariannol (i'r £100 agosaf)** |
| Peter Clarke - Comisiynydd Plant Cymru | 80-85 | 3,800* | 70-75 | 3,200* |
| Maria Battle - Is-gomisiynydd Plant | 55-60 | - | 45-50 | - |
| Rhian Davies - Is-gomisiynydd Plant | 45-50 | - | 40-45 | - |
| Sara Reid - Is-gomisiynydd Plant | 45-50 | - | 40-45 | - |
| Sharon Davies – Is-gomisiynydd Gweithredol **hyd at 06.02.05** | 35-40 | - | 40-45 | - |
| Charlotte Blair - Rheolwr Cyllid a Gweinyddiaeth | 30-35 | - | 30-35 | - |

Mae cyfwerth ariannol y buddion anariannol yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a drinnir gan Gyllid y Wlad fel buddion trethadwy. Darparwyd car a brydleswyd i Peter Clarke yn ystod y flwyddyn.

Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

| | **Pensiwn cronedig ar 31.3.05** | **Cynnydd real yn y pensiwn** | **CAGT(i) ar 31.3.05** | **CAGT(i) ar 31.3.04** | **Cynnydd real yn y CAGT** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Peter Clarke - *Comisiynydd Plant Cymru* | 0-5 | 0-2.5 | 10 | 0 | 8 |
| Maria Battle – Is-gomisiynydd | 0-5 | 0-2.5 | 5 | 0 | 4 |
| Rhian Davies – *Is-gomisiynydd* | 0-5 | 0-2.5 | 4 | 0 | 3 |
| Sara Reid – *Is-gomisiynydd* | 0-5 | 0-2.5 | 13 | 5 | 7 |
| Sharon Davies – *Is-gomisiynydd Gweithredol* | 10-15 | 0-2.5 | 170 | 158 | 7 |
| Charlotte Blair* – *Rheolwr Cyllid a Gweinyddiaeth* | - | - | - | - | - |

* Dewisodd Charlotte Blair beidio ag ymuno â'r PCSPS.

(i) **Cyfwerth Ariannol Gwerth Trosglwyddo**
Y Cyfwerth Ariannol Gwerth Trosglwyddo (CAGT) yw gwerth cyfalaf, a asesir yn actiwaraidd, y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod o'r cynllun ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a allai fod yn daladwy o'r cynllun i briod. Taliad yw'r CAGT, a wneir allan o gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fo aelod yn gadael y cynllun blaenorol ac yn dewis trosglwyddo'r buddion cronedig o'r cynllun hwnnw. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthynol i'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth yn y swyddi uwch y gwneir y datgeliad ar eu cyfer. Mae'r ffigurau CAGT, a'r manylion pensiwn eraill hefyd o 2003-04 ymlaen, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i'r trefniadau PCSPS, ac y mae taliad trosglwyddo wedi ei dderbyn sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a ymgymerwyd. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu, ar ei gost ei hunan, blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth ar gyfer pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir y CAGT yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

**(ii) Y cynnydd real yn y CAGT**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CAGT a gyllidir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin ar gyfer prisio'r farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

**Yr Ymddiriedolaeth Bensiynau**

Peidiodd y cyfraniadau i'r cynllun hwn ar ddiwedd Medi 2004.

| | Pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31.3.05 | Pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31.3.04 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Peter Clarke - *Comisiynydd Plant Cymru* | 5-10 | 5-10 |
| Rhian Davies – *Is-gomisiynydd Plant* | 0-5 | 0-5 |

Cynllun pryniant arian yw cynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, lle nad oes CAGT ar gael.

**Cynlluniau Pensiwn**

(i) Yr Ymddiriedolaeth Bensiynau

Daeth aelodaeth o gynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, sy'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, i ben ar ddiwedd Medi 2004. Hyd at yr adeg honno, yr oedd cyfraniadau cyflogwr o £2,936 (2003-04 £5,695) yn daladwy i gynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, yn ôl cyfradd o 5% o'r tâl pensiynadwy.

(ii) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

O 1 Hydref 2004 ymlaen, rhoddwyd y dewis i'r staff o ymuno â'r trefniadau pensiwn a ddarperir gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr oedd y staff hynny a ymunodd â'r PCSPS yn gymwys ar gyfer ôl-ddyddio eu cyfraniadau cyflogai a chyflogwr hyd at gyfnod hwyaf o ddwy flynedd, a oedd yn dibynnu ar y dyddiad ymuno â Chomisiynydd Plant Cymru. Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr di-gronfa yw hwn, ond ni all Comisiynydd Plant Cymru nodi maint ei gyfran ef o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar t 31ain Mawrth 2003. Mae'r manylion i'w cael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2004-05 yr oedd cyfraniadau cyflogwr o £38,383 yn daladwy i'r PCSPS, yn ôl un o bedair cyfradd o fewn amrediad rhwng 12 ac 18.5 y cant o'r tâl pensiynadwy, yn ôl y bandiau cyflogau. Yr oedd cyfrif y flwyddyn flaenorol yn cynnwys darpariaeth pensiwn cronedig o £48,410 mewn perthynas â chais Comisiynydd Plant Cymru i ymuno â'r PCSPS. Ni ddewisodd pob un o'r staff a oedd yn gymwys ymuno â'r PCSPS, ac felly nid oedd angen y cyfan o'r ddarpariaeth hon. Ar gyfer 2005-06 bydd cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r PCSPS yn ôl un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.2 i 24.6 y cant. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd, ar ôl cynnal gwerthusiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfraniadau'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, ac nid ar yr adeg pan fo'r costau'n codi mewn gwirionedd, ac y maent yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

Rhoddwyd opsiwn i'r staff a ddewisodd ymuno â'r PCSPS, naill ai i gymryd rhan yn y cynllun 'premiwm'(**premiwm**) neu ymuno â threfniant oedd yn seiliedig ar gynllun rhanddeiliad 'pryniant arian', gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr(**cyfrif pensiwn partneriaeth**).

**Y Cynllun Premiwm**
Mae'r buddion yn cronni yn ôl cyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gyfnewid rhan o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 2.25 gwaith y pensiwn, os yw'n fwy (y gyfradd gyfnewid yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a aberthir). Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau o 3.5 y cant o'u henillion pensiynadwy. Ar farwolaeth aelod, telir pensiynau i briod neu bartner cymwys sy'n goroesi yn ôl cyfradd o 3/8 o bensiwn yr aelod (cyn unrhyw gyfnewid). Yn achos marwolaeth tra'n gwasanaethu, mae'r cynllun yn talu cyfandaliad o 3 gwaith yr enillion pensiynadwy a hefyd yn darparu ychwanegiad gwasanaeth wrth drawsnewid pensiwn y priod. Mae'r ychwanegiad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth, ond yr hwyaf a ganiateir yw 10 mlynedd. Mae ymddeol ar sail feddygol yn bosibl mewn achosion o afiechyd difrifol. Mewn achos o'r fath, telir y pensiynau ar unwaith, heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd. Pan fo'r salwch cynddrwg nes atal yr aelod yn barhaol rhag ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig, cynyddir y gwasanaeth i'r hyn fyddai wedi cronni erbyn 60 oed. Cynyddir y pensiynau taladwy yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

**Cyfrif Pensiwn Partneriaeth**
Trefniant o'r math rhanddeiliad yw hwn, lle mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 a 12.5 y cant (yn ôl oedran yr aelod) i gynllun pensiwn rhanddeiliad. Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, telir cyfraniadau cyfatebol gan y cyflogwr hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Gall cyflogwyr hefyd wneud cyfraniad pellach o 0.8 y cant o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer cost yswiriant buddion risg (marwolaeth tra'n gwasanaethu ac ymddeol oherwydd tor-iechyd). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed, gan ddefnyddio'r swm cronedig sydd yn y gronfa i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd hyd at 25 y cant o'r gronfa ar ffurf cyfandaliad.

Nid oedd unrhyw gyflogeion wedi agor cyfrifon pensiwn partneriaeth.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau pensiwn o unrhyw fath wedi eu talu o flaen llaw ar ddyddiad y fantolen.

.

**3. Costau gweinyddu eraill**

| | 2004-2005 | | 2003-2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Rhent yn unol â phrydlesau gweithredu: | | | | |
| - cerbydau | | 6 | | 4 |
| - llety | | 52 | | 52 |
| Costau llety a chostau perthynol eraill | | 27 | | 23 |
| TG a thelathrebu | | 32 | | 26 |
| Cynnal cerbydau / swyddfeydd | | 8 | | 8 |
| Cyhoeddusrwydd / Hysbysebu / Cyfieithu | | 44 | | 34 |
| Teithio, cynhaliaeth a chroeso | | 39 | | 37 |
| Recriwtio | | 6 | | 31 |
| Tâl yr archwilydd | | 9 | | 9 |
| Ymgynghoriaeth gyfreithiol* | | 317 | | 142 |
| Gwariant arall | | 118 | | 28 |
| Eitemau anariannol: | | | | |
| dibrisiant | 76 | | 98 | |
| - colled ar waredu asedau sefydlog | - | | - | |
| - cost cyfalaf | 7 | 83 | 7 | 105 |
| | | **741** | | **499** |

*Yr oedd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn ymwneud â'r Ymholiad Clywch a gynhaliwyd yn 2003-04.

### 4. Incwm gweithredu

| | 2004-2005 £000 | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Incwm gweinyddu | - | 1 |
| | - | 1 |

### 5. Asedau sefydlog

| | Offer TG £000 | Gosodion a Ffitiadau £000 | Dodrefn a chyfarpar swyddfa £000 | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2004 | 87 | 164 | 183 | 434 |
| Ychwanegiadau | 3 | - | 7 | 10 |
| Gwarediadau | (1) | - | - | (1) |
| **Ar 31ain Mawrth 2005** | **89** | **164** | **190** | **443** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1af Ebrill 2004 | 79 | 88 | 104 | 271 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 6 | 34 | 36 | 76 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31ain Mawrth 2005** | **85** | **122** | **140** | **347** |
| **Gwerth llyfr net Ar 31ain Mawrth 2005** | **4** | **42** | **50** | **96** |
| Ar 31ain Mawrth 2004 | 8 | 76 | 79 | 163 |

### 6. Symudiadau mewn incwm gweithredu heblaw arian

| | 2004-2005 £000 | 2003-2004 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn blaendaliadau | 22 | 4 |
| (Cynnydd)mewn credydwyr | 20 | (120) |
| | **42** | **(116)** |

## 7. Blaendaliadau

| | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:** | | |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | 43 | 21 |
| | **43** | **21** |

## 8. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2004 | 192 | 23 |
| Mewnlif arian net | 343 | 169 |
| **Balans ar 31ain Mawrth 2005** | **535** | **192** |

## 9. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

| | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Credydwyr masnach | 46 | 17 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | - | 18 |
| Croniadau | 130 | 161 |
| Incwm gohiriedig | 296 | - |
| | **472** | **196** |

Mae'r incwm gohiriedig yn cynnwys derbyniad o £296K oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Cymorth Grant Ebrill 2005 a dderbyniwyd ym Mawrth 2005.

## 10. Cysoni'r gost gweithredu net â'r newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2004-2005 | 2003-2004 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cost gweithredu net am y flwyddyn (Atodlen 2)** | (1,497) | (1,155) |
| | | |
| Cyllid net gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 1,808 | 1,142 |
| Llai: cyllid a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer 2005-06 | (296) | - |
| | | |
| Addasiadau anariannol: | | |
| - cost cyfalaf | 7 | 7 |
| **Cynnydd/(lleihad) net yn y gronfa gyffredinol** | **22** | **(6)** |
| Y gronfa gyffredinol ar 1[af] Ebrill 2004 | 180 | 186 |
| **Y gronfa gyffredinol ar 31[ain] Mawrth 2005 (Atodlen 3)** | **202** | **180** |

**11.15 Ymrwymiadau yn unol â phrydlesau gweithredu**

| | 2004-2005 £000 | | 2003-2004 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Arall | Tir ac adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2005 yr oedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesau gweithredu a ddaw i ben: | | | | |
| - o fewn un flwyddyn | | | - | 6 |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | 52 | 12 | - | - |
| - ar ôl pum mlynedd | | | 52 | - |
| | **52** | **12** | **52** | **6** |

**12. Deilliadau ac offerynnau ariannol**

Yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol FRS 13, Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill, mae'n ofynnol datgelu'r rhan a chwaraewyd gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, o ran creu neu newid y risgiau a wynebir gan unrhyw endid wrth iddo ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol y rhan fwyaf o weithgareddau'r Comisiynydd a'r modd yr ariennir ei weithgareddau, nid yw ei swyddfa'n agored i risg ariannol i'r un graddau ag endidau busnes. Yn ogystal, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyng o lawer o safbwynt creu neu newid risg, na'r hyn sy'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae FRS yn bennaf berthnasol iddynt. Pŵer cyfyngedig iawn sydd gan y Comisiynydd i fenthyca, neu fuddsoddi arian dros ben. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn gynnyrch ei weithgarwch gweithredol beunyddiol, ac nid yn rhai a ddelir er mwyn newid y risgiau a wynebir.

**Risg Hylifedd**

Mae gofynion refeniw a chyfalaf net y Comisiynydd yn cael eu hariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw ei swyddfa, felly, yn agored i unrhyw risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg cyfraddau llog**

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol y Comisiynydd yn agored i unrhyw risgiau oherwydd cyfraddau llog.

**Risg arian tramor**

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol y Comisiynydd yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd teg**

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol y Comisiynydd ar 31ain Mawrth 2005.

---

## 13. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31ain Mawrth 2005.

---

## 14. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31ain Mawrth 2005.

---

## 15. Trafodion Partïon Perthynol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti perthynol. Digwyddodd nifer fach o drafodion sylweddol yn ystod y cyfnod rhwng y Comisiynydd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid oedd unrhyw drafodion sylweddol gyda sefydliadau lle'r oedd uwch aelodau'r staff, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn safleoedd dylanwadol.